



## Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr – 1 Ebrill 2020



### Beth yw'r pwyntiau allweddol?

Bu'n rhaid i reolwyr cartrefi gofal  
i oedolion gofrestru gyda ni ers  
**2011**

Mae **1,294** o reolwyr wedi  
cofrestru, sef ychydig o  
ostyngiad o gymharu â **1,304** yn  
**2019**

**50** yw oedran cyfartalog  
reolwyr

Agorodd y Gofrestr i weithwyr  
cartrefi gofal i oedolion ar **1**  
**Ebrill 2020**



### Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

Mae'r sector hwn yn parhau'n  
sefydlog a bach iawn o  
newidiadau fu yn y pum  
mlynedd ddiwethaf

Ni fu newid i'r gymhareb  
menywod a dynion, sef **4:1**

Fe wnaeth canran y rheolwyr a  
ddechreuodd mewn rôl newydd  
yn y tair blynedd ddiwethaf  
ostwng o **37%** yn **2015** i **34%**  
eleni

Fe wnaeth canran y rheolwyr  
sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg  
neu Gymraeg rhugl gynyddu o  
**34.5%** i **41%**



### Faint sydd wedi ymuno â'r Gofrestr a'i gadael?

Yn y flwyddyn ddiwethaf,  
gadawodd **162** o reolwyr y  
Gofrestr ac ymunodd **152** – sef  
trosiant o **12%**

Ni wnaeth **47%** o'r ymadawyr  
gynnal eu cofrestrriad

Newidiodd **12%** i swydd nad  
oedd yn galw am gofrestru

Arhosodd **10%** ar y Gofrestr  
mewn rôl wahanol

Nid oedd **8%** yn gweithio  
mwyach mewn gofal  
cymdeithasol ac roedd  
**7%** wedi ymdeol



### Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

Mae gan holl reolwyr cartrefi  
gofal i oedolion gymhwyster  
perthnasol

Mae **46%** bellach yn dal  
Diploma Lefel 5 cyfredol y  
Fframwaith Cymwysterau  
a Chredydau mewn  
Arweinyddiaeth ar gyfer  
Gwasanaethau lechyd a Gofal  
Cymdeithasol (Rheolaeth  
Breswyl i Oedolion)

Mae pob un o'r gweddill yn dal  
cymhwyster cyfwerth derbyniol



### Ymhle mae rheolwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **83%** yn gweithio yn y  
sector preifat

Mae **10%** yn gweithio mewn  
gwasanaethau cymdeithasol  
awdurdodau lleol

Mae **6%** yn gweithio yn y  
trydydd sector

Mae **25%** o reolwyr wedi bod yn  
eu rôl bresennol ers mwy na **10**  
mlynedd

Mae **51%** o reolwyr wedi  
dechrau rôl newydd o fewn y  
pum mlynedd ddiwethaf



### Beth yw proffil rheolwyr?

Mae **1,036** o fenywod  
a **258** o ddynion

**50** yw oedran cyfartalog  
reolwyr

Mae **93.5%** o reolwyr yn wyn,  
gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig  
neu'n wyn Gwyddelig

Mae **41%** o reolwyr yn siarad  
rhywfaint o Gymraeg neu  
Gymraeg rhugl

Mae gan lai nag **1%** o reolwyr  
anabledd